TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# CBAC Addysg Gorfforol UG Lefel 3



**Yn gryno**

Mae'r cwrs hwn yn ymdrin ag archwilio Addysg Gorfforol ac yn eich helpu chi i wella'ch perfformiad eich hun

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych wrth eich bodd yn bod yn actif

... Ydych yn mwynhau cymryd rhan mewn chwaraeon

... Ydych am gyfuniad o astudiaeth ddamcaniaethol ac ymarferol

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae'r cwrs hwn wedi'i rannu i 2 uned:

Uned 1 - Archwilio Addysg Gorfforol

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud, 24% o'r cymhwyster Lefel U (60% o'r cymhwyster Lefel UG)

Ffisioleg ymarfer corff, dadansoddi perfformiad a hyfforddiant
Seicoleg chwaraeon
Caffael sgiliau
Chwaraeon a'r gymdeithas

Uned 2 - Gwella perfformiad personol mewn Addysg Gorfforol

Asesiad heb arholiad, 16% o'r cymhwyster Lefel A (40% o'r cymhwyster Lefel UG).

Perfformiad ymarferol mewn un gweithgaredd fel chwaraewr/perfformiwr ac fel hyfforddwr neu swyddog
Proffil perfformiad personol

Asesir drwy dasgau gwaith cwrs ymarferol ac arholiad yn y flwyddyn UG ac U. Pan fyddwch yn ei gwblhau, byddwch yn cyflawni:

Addysg Gorfforol Lefel UG
Addysg Gorfforol Lefel U
Gweithgareddau sgiliau

Saesneg a Mathemateg

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I ymrestru, mae angen ichi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Cymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg, Mathemateg/Rhifedd Mathemateg, Gwyddoniaeth a Gradd B mewn Ymarfer Corff.

Dylech fod yn cymryd rhan reolaidd mewn o leiaf un math o chwaraeon ar lefel clwb a phan fo'n bosib, dylech fod yn chwarae i goleg os yw'r chwaraeon hwnnw'n cael ei gynnig.

Mae angen ymrwymiad llawn i bresenoldeb, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaus ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Gellir defnyddio Addysg Gorfforol Lefel UG fel cymhwyster 'annibynnol', er mwyn ehangu'ch ystod o bynciau ar Lefel UG neu bynciau galwedigaethol, neu gallwch barhau i Lefel U. Gall cwblhau cymhwyster Lefel A yn llwyddiannus arwain at gyrsiau prifysgol mewn pynciau megis Gwyddor Chwaraeon, Astudiaethau Chwaraeon a Ffisiotherapi. Mae Addysg Gorfforol Lefel UG ac U yn darparu sylfaen ddefnyddiol ar gyfer gyrfaoedd yn y diwydiant chwaraeon ac addysgu.